**SEWR-01-01 (min)**

# PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-DDWYRAIN

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 2 Chwefror 2001 |
| **Amser:** | 9.30am hyd 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (Campws Colchester Avenue) |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Peter Black (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Lorraine Barrett | Canol Caerdydd |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Michael German | Dwyrain De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Jane Hutt | Bro Morgannwg |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |

| | |
|---|---|
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Sarah, Hayley a Keith | ‘Right On’ Rhwydwaith Pobl Ifanc Caerdydd |
| John, David a Trowie | Canolfan Taro-draw Fernhill |
| Catriona Williams | Cyfarwyddwr, Plant yng Nghymru |
| Andy James | Swyddog Polisi, Barnardos |
| David Allen | Ysgrifennydd Cenedlaethol, Cyngor Cymru o’r YMCA |
| Joe Howsam | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Martin Stevenson | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau agoriadol**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb a oedd yn bresennol gan gynnwys aelodau’r cyhoedd a’r cyflwynwyr. Thema’r cyfarfod oedd darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, a dywedodd y Cadeirydd fod y Llywodraeth Bartneriaeth wedi gwneud ymrwymiad cadarn i weddnewid y

ffordd y caiff y gwasanaethau hyn eu darparu. Yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal ymgynghoriad eang yngln â’i bolisi tuag at blant a phobl ifanc, a theimlai ei bod yn briodol i’r Pwyllgor glywed barn pobl ifanc eu hunain. Byddai’r Pwyllgor hefyd yn clywed barn y sector gwirfoddol a llywodraeth leol.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Rosemary Butler, Jane Davidson, Geraint Davies, David Davies, Jocelyn Davies, Sue Essex, Janice Gregory, John Griffiths, Carwyn Jones, Peter Law, Huw Lewis, David Melding, Jonathan Morgan, Rhodri Morgan a Lynne Neagle.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr:**

**SEWR-06-00 (min)**

3. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr.

**Eitem 3: Sesiwn trafod agored**

4. Mewn ymateb i wahoddiad y Cadeirydd, cododd aelodau’r cyhoedd y materion canlynol:

- Cafwyd sawl cwestiwn yngln â'r gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc anabl, gan gynnwys trafnidiaeth i ganolfannau ieuenctid a mynediad i addysg bellach ac addysg uwch.
- Cafwyd cwestiwn yngln â chynyddu’r ddarpariaeth therapi lleferydd ac iaith ar gyfer plant a phobl ifanc a galwyd am gyflwyno trefn i sgrinio clyw plant newydd-anedig yng Nghymru.
- Codwyd cwestiwn yngln â chyllid, mewn perthynas ag addysg. Arweiniodd hyn at rywfaint o drafodaeth am rôl y Cynulliad Cenedlaethol yn monitro awdurdodau addysg lleol er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio’n briodol i ddarparu gwasanaeth addysg effeithiol ac effeithlon.
- Codwyd sawl cwestiwn yngln â chyllido mudiadau yn y sector gwirfoddol, a oedd wedi derbyn cymorth gan y Loteri Genedlaethol, yn y tymor hwy.
- Cafwyd sawl cwestiwn mewn perthynas â diogelwch plant, gan gynnwys galwad ar i’r Cynulliad Cenedlaethol gymryd materion amgylcheddol i ystyriaeth wrth roi polisïau ar waith a allai effeithio’n sylweddol ar ddiogelwch plant. Gwnaethpwyd pwynt hefyd yngln â rheoli ac arolygu gwasanaethau gofal maeth.
- Cafwyd cwestiynau yngln â'r effaith y bydd y taliadau a godir gan yr heddlu am ymchwilio i gofnodion troseddol yn ei chael ar y sector gwirfoddol.
- Cafwyd cwestiwn yngln â'r Ddeddf Diogelu Data a chyfrinachedd a sut y gallai hynny arwain at anawsterau o ran gweithio mewn partneriaeth.

- Codwyd mater cyfiawnder yr ifanc a hawliau plant o safbwynt y gyfraith.

5. Dywedodd y Cadeirydd y byddai’n trefnu bod y rheini a holodd y cwestiynau yn cael ateb ysgrifenedig gan y Gweinidog perthnasol dim ond iddynt roi eu henwau a’u cyfeiriadau.

**Eitem 4: Y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc: Safbwynt pobl ifanc**

6. Dechreuodd y bobl ifanc o 'Right On' Rhwydwaith Pobl Ifanc Caerdydd drwy ddweud eu bod yn gymysglyd yngln â'u hawliau. Aethant ymlaen i amlinellu cymaint o bethau croes i’w gilydd sy’n wynebu pobl ifanc, er enghraifft, caiff pobl ifanc wasanaethu yn y lluoedd arfog ond nid oes hawl ganddynt i bleidleisio.

7. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y cyflwyniad:

- Beirniadwyd y symudiad i ddisodli safon A gydag AS am fod hynny’n rhoi pwysau dianghenraid ar fyfyrwyr.
- Awgrymwyd bod sgiliau allweddol yn ddianghenraid ac amhriodol i lawer o fyfyrwyr ac nad oeddynt o unrhyw fudd ychwanegol.
- Teimlid nad oes cefnogaeth ariannol ac emosiynol ddigonol ar gael i bobl ifanc mewn addysg bellach ac addysg uwch.
- Galwyd am ymestyn y lleiafswm cyflog fel ei fod yn cynnwys pob person ifanc o oed gweithio. Awgrymwyd bod y gyfradd bresennol yn golygu bod cyflogwyr yn gallu manteisio ar y rheini sy’n fwyaf bregus.
- Awgrymwyd y dylai nwyddau atal cenhedlu fod ar gael yn rhad ac am ddim i bob person ifanc ac y dylai’r clinigau sy’n cynnig cyngor i bobl ifanc fod o fewn cyrraedd mwy hwylus.
- Teimlid y dylai fod mwy o help ac arweiniad ar gael i bobl ifanc sy’n byw ar eu pen eu hunain ac sydd efallai yn ei chael hi’n anodd ymdopi â phwysau byw yn annibynnol. Awgrymwyd y dylai unrhyw gyngor sydd ar gael i oedolion fod ar gael i bobl ifanc.
- Awgrymwyd y dylai fod gan bobl ifanc hawl i gyfleusterau hamdden am ddim, a fyddai’n gwella iechyd a lles yn gyffredinol ac yn arwain at weithlu mwy cynhyrchiol.
- Galwyd am gyllido’r sector gwirfoddol yn ddigonol – byddai hynny’n help i symud yr argymhellion a wnaethpwyd yn y dogfennau ymgynghorol yn eu blaen.
- Teimlid bod angen ymgynghori parhaus rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a phobl ifanc Cymru. Ar ben hynny, nid yn unig yr oedd angen i farn pobl ifanc gael ei chlywed ond rhaid oedd ei chymryd i ystyriaeth yn y broses o lunio polisi.

8. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cydnabu’r Aelodau y rhwystredigaeth y mae pobl ifanc yn ei hwynebu ar sail yr anghysondebau yn y cyfyngiadau oedran a geir mewn gwahanol feysydd. Cydymdeimlai’r Pwyllgor â'r farn y dylid safoni mwy ar gyfyngiadau oedran statudol. Fodd bynnag, nodwyd mai mewn meysydd nad ydynt wedi’u datganoli y ceir y

cyfyngiadau hyn gan mwyaf, felly byddai'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol berswadio Llywodraeth y DU fod yna achos o blaid newid. Un awgrym oedd y dylid sefydlu Comisiwn i ystyried cyfyngiadau oedran yn fwy cyffredinol. Nodwyd hefyd fod trafodaethau'n parhau yngln â sefydlu Seneddol Genedlaethol i Bobl Ifanc Cymru, a fyddai'n darparu fforwm lle gallai pobl ifanc fynegi eu barn. Teimlai rhai Aelodau y byddai'n rhaid i bobl ifanc dderbyn y cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth fod yn oedolyn pe câi'r anghysondebau mewn oedran cydsynio eu dileu, gan ganiatáu mwy o hawliau i bobl ifanc.

- Trafodwyd hefyd sut y gellid gwella mynediad i addysg bellach ac addysg uwch, a thynnnwyd cymhariaeth rhwng Cymru ac Iwerddon lle mae dros 50 y cant o bobl ifanc yn mynd ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch. Awgrymwyd bod yna berthynas rhwng y gyfundrefn addysg yn Iwerddon a'r twf cyflym yn economi'r wlad. Teimlai rhai Aelodau fod angen rhoi mwy o gymorth ariannol i bobl ifanc i annog mwy ohonynt i fanteisio ar addysg bellach ac addysg uwch.
- Awgrymwyd bod yr arbenigo sy'n gysylltiedig ag astudiaethau safon A yn ddianghenraid mor ifanc a bod safonau AS wedi'u cyflwyno i wneud iawn am hynny ac ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc. Teimlai'r Aelodau nad yw'r gyfundrefn safon AS ond yn ei babandod o hyd ac nad yw'n bosibl mesur ei heffeithiolrwydd eto. Yn yr un modd, diben y sgiliau allweddol oedd hybu sylfaen gwybodaeth ehangach, creu mwy o hyblygrwydd a rhoi i bobl ifanc y sgiliau y mae eu hangen arnynt ym mhob agwedd o fywyd.
- Teimlai'r Aelodau fod y Cynulliad Cenedlaethol wedi mabwysiadu agwedd gynhwysol tuag at bobl ifanc a oedd wedi'u galluogi i gymryd mwy o ran mewn prosesau penderfynu. Nodweddir hyn gan y Comisiynydd Plant sydd wedi'i benodi i Gymru; bu gan blant a phobl ifanc ran uniongyrchol yn y broses ddethol ar gyfer y swydd honno. Nodwyd hefyd fod pobl ifanc yn gallu cysylltu'n uniongyrchol at Aelodau'r Cynulliad dros y Rhyngrwyd.
- Cydnabuwyd bod angen trafodaeth bellach yngln â'r ffordd fwyaf effeithiol o ymgynghori â phobl ifanc. Ymrwymodd Jane Hutt i ymweld â'r bobl ifanc i drafod iechyd pobl ifanc yn eu harddegau a sut y gellid gwella'r broses ymgynghori. Dywedodd Lorraine Barrett a Christine Chapman y byddent yn croesawu'r cyfle i ymweld â Chanolfan Taro-draw Fernhill i gael trafodaethau pellach.

9. Diolchodd y Cadeirydd i'r bobl ifanc o 'Right on' Rhwydwaith Pobl Ifanc Caerdydd a Chanolfan Taro-draw Fernhill am rannu eu safbwyntiau a'u syniadau gyda'r Pwyllgor. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r safbwyntiau a fynegwyd yn cael eu cyflwyno i Weinidogion perthnasol y Cynulliad fel y gellid eu cymryd i ystyriaeth fel rhan o'r ymarferiad ymgynghori sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

**Eitemau 5 a 6: Y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc: Safbwyntiau'r sector gwirfoddol a'r awdurdodau lleol**

10. Wrth ddechrau ar ei chyflwyniad, croesawodd Catriona Williams y dogfennau ymgynghorol

*Plant a Phobl Ifanc – Fframwaith ar gyfer Partneriaeth* ac *Ymestyn Hawliau: Cefnogi Pobl Ifanc yng Nghymru*, er y teimlid y byddai un ddogfen wedi bod yn well. Cymeradwyai'r ffaith bod fframwaith strategol i gael ei ddatblygu ar gyfer cynllunio a chyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc a chroesawai yn arbennig y pwyslais a roddwyd ar Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Awgrymwyd mai priodol fyddai sefydlu pwyllgor trawsbynciol yn y Cynulliad Cenedlaethol i ddelio â materion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc.

11. Croesawai Catriona Williams y bwriad i resymoli'r ffrydiau cyllido sydd ar gael ar hyn o bryd a'u cyfuno'n Gronfa Cynorthwyo Plant a Phobl Ifanc. Awgrymodd fod angen mapio'r anghenion hynny nad oes cyllid ar gael ar eu cyfer, a thynnodd sylw at y sefyllfa o ran gofal maeth. Croesawai hefyd y cynnig i wella'r drefn gynllunio yn lleol drwy un Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, er bod angen ystyried canllawiau cynllunio strategol ar gyfer awdurdodau lleol. Yr oedd yna bryder hefyd yngln â'r diffyg seilwaith i gynnal y broses gynllunio, yn absenoldeb Fforymau Plant a Theuluoedd o fewn rhai awdurdodau lleol. Teimlai y byddai'r fframwaith polisi newydd yn dibynnu ar lwyddiant y trefniadau i weithio drwy bartneriaeth yn y gymuned, ac yr oedd angen cyfarwyddyd clir gan y Cynulliad Cenedlaethol i helpu i feithrin partneriaethau effeithiol. Pwysleisiodd y lefel o arbenigedd y gallai'r sector gwirfoddol ei gynnig i bartneriaethau lleol, a gallai awdurdodau lleol ddefnyddio'r arbenigedd hwnnw i'w helpu i gynllunio eu gwasanaethau.

12. Y cyflwynydd nesaf oedd Andy James o Barnardos Cymru. Dywedodd y byddai'n ymdrin â thair agwedd o'r dogfennau ymgynghorol, sef gweithio drwy bartneriaeth, cyfranogiad a chyffredinoldeb.

13. O ran gweithio drwy bartneriaeth, yr oedd Barnardos Cymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda defnyddwyr gwasanaethau a chydag asiantaethau eraill. Fodd bynnag, yr oedd profiad pobl o weithio drwy bartneriaeth yn amrywio'n fawr ar draws Cymru, a theimlai Andy James fod angen newid sylweddol mewn meddylfryd os oedd y dyheadau o ran y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc arfaethedig i gael eu gwireddu. Yr oedd yn bwysig i'r Cynulliad Cenedlaethol sylweddoli maint y dasg, o ystyried yr amser a'r ymdrech sy'n ofynnol i sefydlu a chynnal partneriaethau effeithiol. Byddai'n rhaid wrth ymddiriedaeth ac ymdeimlad o gydraddoldeb ymysg y partneriaid, a byddai'n rhaid darparu adnoddau ar sail hirdymor a meithrin gallu er mwyn cynnal seilwaith y bartneriaeth. Byddai'n rhaid hefyd cael gweledigaeth yngln â'r hyn y mae angen ei gyflawni, a sicrhau bod y weledigaeth honno yn un a rennir, yn hytrach nag awydd i warchod neu hybu buddiannau mudiad unigol. Anogodd y Cynulliad Cenedlaethol i werthfawrogi'r cyfraniad y gallai asiantaethau gwirfoddol ei wneud i'r partneriaethau, a oedd yn aml yn cynnwys cyllid yn ogystal ag arbenigedd, gwybodaeth a phrofiad.

14. O ran cyfranogiad, cymeradwyodd Andy James y Cynulliad Cenedlaethol am ei ymrwymiad clir i gynnwys pobl ifanc a gwrando arnynt wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau. Unwaith eto, teimlai ei bod yn bwysig sylweddoli maint y dasg, a fyddai'n golygu newid meddylfryd sylfaenol yn y rhan fwyaf o sefydliadau. Yr oedd yna oblygiadau o ran dylunio gwasanaethau, ac yr oedd angen i'r rheini fod mor hyblyg â phosibl fel ei bod yn

bosibl ymateb yn gyflym i'r hyn yr oedd pobl ifanc yn ei ddymuno. Yr oedd yn bwysig osgoi gweithredu symbolaidd, disylwedd, oherwydd byddai pobl ifanc yn cael eu dadrithio pe na byddid yn gweithredu ar ôl canfod eu barn. Ar ben hynny, byddai'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau wedi colli cyfle i lunio eu gwasanaethau mewn modd sy'n ateb anghenion y defnyddwyr.

15. Yr oedd pwynt olaf Andy James yn ymwneud â chyffredinoldeb. Mynegodd gefnogaeth i'r nod a amlinellwyd yn *Ymestyn Hawliau* o ddarparu gwasanaethau ataliol a fyddai ar gael i bawb. Byddai'n bwysig datblygu gwasanaethau ar sail gwbl gynhwysol, gan gymryd i ystyriaeth anghenion plant anabl, pobl ifanc ddu a grwpiau eraill sydd â diffyg mantais ac sydd wedi'u cau allan o gymdeithas. Fodd bynnag, teimlai y dylai gwasanaethau ddal i gael eu targedu at grwpiau o bobl ifanc sydd â diffyg mantais, neu yr oedd yna berygl y byddent yn dal i deimlo eu bod yn cael eu cadw ar y cyrion.

16. Dywedodd David Allen fod y YMCA yn croesawu'r ddogfen *Ymestyn Hawliau*, yn arbennig am ei bod yn dechrau adfer swyddogaeth ataliol y gwasanaeth ieuenctid, sef darparu help ac arweiniad i bobl ifanc yn hytrach na dim ond delio â chanlyniadau argyfwng neu fethiant.

17. Teimlai bod mudiadau gwirfoddol yn dod i fodolaeth am fod pobl leol yn sylwi ar angen neilltuol ac yn ceisio rhoi sylw iddo. Ar hyn o bryd yr oedd gan y YMCA 31 canolfan annibynnol yng Nghymru, gyda phob un ohonynt yn cynnig ystod unigryw o gyfleusterau a adlewyrchai anghenion y gymuned leol. Rhoddodd amlinelliad byr o'r cyfleusterau hyn, yn amrywio o Gaffis seiber, gwelyau dros dro, cyrsiau addysg uwchradd a phellach, busnesau islawr a gwelyau ar gyfer pobl mewn perygl. Er mwyn cynnal y patrwm cyflenwi gwasanaethau hwn, yr oedd angen cyllid craidd ar gyfer pencadlys y mudiad.

18. Pwysleisiodd David Allen yr angen am gyllido cynaliadwy ar gyfer mudiadau yn y sector gwirfoddol. Teimlai y gallai'r cyllid tair blynedd sydd ar gael oddi wrth y Loteri Genedlaethol ladd yr ysgogiad sydd mor bwysig mewn pwyllgorau rheoli ac y gallai beri i gymunedau fod yn oruchelgeisiol. Nodwyd bod y YMCA yn cael cefnogaeth o 26 o ffrydiau cyllido gwahanol heb gynnwys ymddiriedolaethau gwirfoddol nac elusennau.

19. Yn olaf, cododd David Allen fater y taliadau a godir gan yr heddlu am ddarparu gwybodaeth am gofnodion troseddol. Teimlai y byddai'n dreth drom iawn ar wirfoddoli na fyddai'r sector gwirfoddol yn gallu ei thalu. Teimlai hefyd fod yna wahaniaeth sylfaenol rhwng 'cymorth grant ' a gwir weithio drwy bartneriaeth a dywedodd na ddylid drysu rhwng y naill a'r llall. Galwodd am bartneriaethau cydradd a gwaith integredig.

20. Wrth ddechrau ei gyflwyniad, dywedodd Joe Howsam y byddai'n mynegi safbwynt personol ar y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Croesawai'r dogfennau ymgynghorol, er iddo ategu'r farn a fynegwyd gan eraill y byddai un ddogfen wedi bod yn fwy priodol.

21. Lluniwyd cymhariaeth â’r profiad o roi Deddf Plant 1990 ar waith. Bu nifer fawr o asiantaethau a mudiadau â rhan yn y gwaith hwnnw, ac yr oedd pob un ohonynt â’i agenda neilltuol ei hun. Pwysleisiodd Joe Howsam bwysigrwydd partneriaeth, o’i gyferbynnu â chydweithredu, wrth symud yr agenda polisi yn ei blaen. Cefnogai’r farn a fynegwyd yn y *Fframwaith ar gyfer Partneriaeth* fod angen seilio gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ar ddadansoddiad o’u hanghenion ac nid ar strwythurau cyflenwi y cyrff sy’n darparu gwasanaethau.

22. Rhannai Joe Howsam bryderon y sector gwirfoddol yngln â chyllido byrdymor ac yr oedd o blaid rhesymoli’r ffrydiau cyllido sydd ar gael. Holai pam yr oedd angen cyflogi arbenigwyr i lunio ceisiadau, ac awgrymodd mai ansawdd y ceisiadau sy’n pennu sut y dyrennir cyllid yn aml ar hyn o bryd yn hytrach nag ymhle y mae’r angen mwyaf. O ran cynllunio’r modd o gyflenwi gwasanaethau, pwysleisio yr angen i sicrhau’r cydbwysedd iawn yn nhermau darparu gwasanaethau arbenigol, fel bod yr hyn sydd ei angen yn glir heb golli golwg ar y darlun ehangach. Teimlai y byddai’n dda o beth pe ceid mwy o gyd-amseru wrth baratoi cynlluniau gwasanaeth, a phwysleisiodd y dylai plant fod yn ganolog i’r broses ac y dylid cael cyfranogiad llawn pobl ifanc a’u rhieni.

23. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Ategodd y Pwyllgor y farn bod partneriaethau sydd wedi’u datblygu’n dda yn hanfodol bwysig yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Teimlid bod angen i fudiadau feithrin ymddiriedaeth yn y drefn o weithio drwy bartneriaeth a bod yn rhaid i awdurdodau lleol ymdrechu i ennyn cyfranogiad cymunedau.
- Cydnabu’r Aelodau y pryderon a godwyd yngln â pharhad cyllid hirdymor. Nodwyd y gallai Bwrdd y Loteri Genedlaethol bellach ddyrannu 25 y cant o’i gyllid i brosiectau sydd wedi ennill eu plwyf er mwyn iddynt allu parhau. Teimlai’r Pwyllgor yn gryf mai nid i ddisodli cyllid yr awdurdodau lleol y dylid defnyddio cyllid y Loteri Genedlaethol. Gwnaethpwyd y pwynt y gallai cymunedau bach anghysbell ei chael hi’n anodd denu arian o du’r Loteri Genedlaethol ac y dylid ymchwilio ymhellach i hynny.
- Mynegwyd pryder gan y Pwyllgor yngln â’r goblygiadau ariannol i’r sector gwirfoddol yn sgîl y taliadau a godir gan yr heddlu am ymchwilio i gofnodion troseddol. Nodwyd bod nifer o Aelodau wedi cyflwyno sylwadau ar y mater hwn i’r Swyddfa Gartref. Teimlai’r Pwyllgor bod angen parhau i gefnogi’r ymgyrch.

24. Diolchodd y Cadeirydd i’r cyflwynwyr am rannu eu safbwyntiau yngln â'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gyda’r Pwyllgor ac am ateb cwestiynau’r Aelodau. Dywedodd y câi’r teimladau a fynegwyd eu cyflwyno i Weinidogion perthnasol y Cynulliad fel y gellid eu cymryd i ystyriaeth fel rhan o’r ymarferiad ymgynghori sy’n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

**Eitem 7: Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Gwener 30 Mawrth**

25. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y câi cyfarfod nesaf y Pwyllgor ei gynnal ddydd Gwener 30 Mawrth yng Nghanolfan Hamdden Caerffili. Dywedodd mai’r pwnc i’w drafod fydd materion cynllunio amgylcheddol a rhanbarthol yng nghyd-destun defnyddio tir.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Chwefror 2001**

**Atodiad**

**CRYNODEB PWYNTIAU GWEITHREDU O GYFARFOD 2 CHWEFROR**

1. Y Cadeirydd i drefnu bod pob cwestiwn o’r sesiwn trafod agored i gael ateb ysgrifenedig gan y Gweinidog perthnasol (paragraff 5).

2. Y Cadeirydd i gyflwyno’r safbwyntiau a fynegwyd i Weinidogion perthnasol y Cynulliad fel y gellid eu cymryd i ystyriaeth yn yr ymarferiad ymgynghori sy’n mynd rhagddo ar hyn o bryd (paragraffau 9 a 24).